# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 27 Chwefror, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim wedi'u derbyn |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Douglas Fowlie (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Liz Wood, Rheolwr Sgriwtini (AGD). |

---

Croesawodd y Cadeirydd Mr Aaron Evans i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 3. MATERION BRYS GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 4. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai a eglurodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac wrth wneud hynny mae'n rhaid iddo ystyried gofynion Cod Darbodus CIPFA a Chod Ymarfer

DRAFT

CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mae'r DSRhT yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i reoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian parod yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac mae'n nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys sy'n sicrhau bod benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu rheoli'n gyfrifol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Robin Williams bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu ar y DSRhT ar gyfer 2025/26 ac yna'i argymell yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror, 2025.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod strategaeth fuddsoddi'r Cyngor yr un fath ar gyfer 2025/26, sef blaenoriaethu diogelwch a hylifedd yn gyntaf ac elw (enillion) yn ail. O ran benthyciadau, ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei falansau arian wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol. Gan fod cyfraddau llog yn weddol uchel roedd yn fwy cost effeithiol gwneud hynny. Fodd bynnag, dros oes y strategaeth, rhagwelir y byddai parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw a defnyddio'r CRT i ariannu gwariant cyfalaf yn lleihau cronfeydd wrth gefn arian parod y Cyngor yn sylweddol ac felly bydd llai o gyfle i fenthyca'n fewnol a bydd yn rhaid cynyddu buddsoddiadau allanol i ariannu rhaglen gyfalaf y Cyngor. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn Nhabl 7 yn y strategaeth sy'n dangos lefel y buddsoddiadau mewnol ac allanol yn y blynyddoedd hyd at 2028/29. Mae'r Dangosyddion Darbodus yn Nhabl 11 yn sicrhau bod benthyciadau'r Cyngor yn fforddiadwy ac o fewn y terfynau a bennwyd.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gydnabod yr adroddiad a'r gwaith yn gysylltiedig ag o a chydnabod yn ogystal bwysigrwydd y strategaeth o ran sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu trin yn synhwyrol ac mewn modd cynaliadwy ac nad yw'r Cyngor yn gorwario er mwyn cwrdd â'i anghenion gwariant cyfalaf.

**Penderfynwyd nodi'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 ac argymell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.**

## 5. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 i'w hadolygu a'u cytuno gan y Pwyllgor Gwaith yn derfynol ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai a roddodd drosolwg o'r cefndir gan ddweud bod y setliad gwreiddiol yn cynnig 3.6% o gynnydd ar gyfer Ynys Môn a bod y Pwyllgor Gwaith o'r herwydd wedi cynnig cyllideb ddrafft gychwynnol o £195.243m ar gyfer 2025/26 a oedd yn cynnwys defnyddio £2m o falansau cyffredinol y Cyngor, lleihau'r gyllideb £699m a chynyddu'r Dreth Gyngor 9.5%. Oherwydd cyfyngiadau amser, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus byr ar y cynnig ac mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn Atodiad 3 o'r adroddiad. Cyhoeddodd Lywodraeth Cymru'r setliad terfynol ar 20 Chwefror 2025 a oedd yn cynnwys cyllid gwaelodol o 3.8%, ac o ganlyniad dyrannwyd £277k yn ychwanegol i Ynys Môn. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn grant pellach i helpu cynghorau yng Nghymru i gwrdd â chostau gofal ym maes gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams bod y Pwyllgor Gwaith, yn sgil y cyllid ychwanegol ac ar ôl ystyried ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn cynnig diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb drwy beidio â chodi tâl gwasanaeth ar unedau diwydiannol a busnes, peidio â lleihau nifer y dyddiau y mae canolfannau ailgylchu'r Cyngor ar agor, lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor (yn cynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân) 1% i 8.5% a dyrannu £217k er mwyn cwrdd â chostau adnewyddu offer TG mewn ysgolion yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Robin Williams bod y Pwyllgor gwaith wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb, ac felly gellir defnyddio'r grant yn rhywle arall a bydd yn cael ei ddefnyddio i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 8.5% sy'n

DRAFT

golygu mai Ynys Môn fydd â'r ail gynnydd lleiaf allan o holl gynghorau'r Gogledd. Gyda'r newidiadau, mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnig cyllideb refeniw net o £195.443m.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y newidiadau rhwng setliad cychwynnol a setliad terfynol Llywodraeth Cymru a bod y data sy'n llywio cyllid grant wedi arwain at ostyngiad o £34k yn y cyllid grant ar gyfer Ynys Môn ac y bydd hynny'n cael ei wrthbwyso â'r £277k yn ychwanegol yn y cyllid gwaelodol o 3.8%. Yn amodol ar gadarnhad, rhagwelir y bydd y grant ychwanegol y bydd Ynys Môn yn ei dderbyn ar gyfer costau gofal cymdeithasol oedolion oddeutu £700k. Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Dywedodd bod rhai'n ffafrio defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn hytrach na chynyddu'r Dreth Gyngor i gwrdd â'r bwlch cyllidol tra bo eraill wedi dweud y dylai'r Cyngor gael ei reoli fwy fel busnes. Mae defnyddio balansau i gydbwyso'r gyllideb yn cynnig datrysiad dros dro, fodd bynnag gan mai dim ond unwaith y gellir gwario'r arian nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy yn yr hirdymor ac nid yw'n mynd i'r afael â'r pwysau cyllidol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, ac er bod manteision yn gysylltiedig â rhedeg y Cyngor fel busnes, nid yw'n fusnes ac nid oes ganddo'r rhyddid i fynd i'r afael â heriau cyllidol yn yr un modd ag y gallai busnes drwy leihau costau, codi mwy o dâl a pheidio â darparu gwasanaethau. Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at y gwasanaethau nad yw'r Cyngor yn codi ffi amdanynt, a'r ffioedd sy'n cael eu gosod yn allanol ac nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt e.e. ffioedd gofal cartref sydd wedi cael eu capio ar £100 yr wythnos gan Lywodraeth Cymru er gwaetha'r gost gynyddol i'r Cyngor yn gysylltiedig â darparu gofal, a'r ffioedd y mae'r Cyngor yn eu sybsideiddio er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth e.e. cinio ysgol a ffioedd canolfannau hamdden. Hefyd, mae gan y Cyngor ddyletswyddau statudol ac mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo ddarparu pob math o wasanaethau hanfodol. Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor gydbwyso ei gyllideb drwy ddefnyddio'r Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru, cronfeydd wrth gefn a'r Dreth Gyngor.

Adroddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y pwyllgor wedi ystyried cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb 2025/26 yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2025 cyn i'r setliad terfynol gael ei gyhoeddi. Cadarnhaodd y Cynghorydd Douglas Fowlie nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael i'r pwyllgor bryd hynny a bod y pwyllgor wedi cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd ar y pryd, a oedd yr un fath â'r cynigion drafft cychwynnol a gyflwynwyd ym mis Ionawr. Roedd y pwyllgor hefyd wedi argymell bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i bwyso arnynt i gynnig setliadau ariannol pob tair blynedd yn hytrach na setliadau blynyddol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i gynghorau a'u helpu i gydbwyso eu cyllidebau'n well.

Wrth ddiolch i'r pwyllgor Sgriwtini am ei gyfraniad cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â darparu setliadau aml-flynyddol a dywedodd bod y mater wedi cael ei drafod a'i gefnogi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Aeth ymlaen i amlygu pryderon ynglŷn ag amseriad y setliad a dywedodd nad oedd y setliad terfynol wedi cael ei gyhoeddi tan ar ôl cyfarfod y pwyllgor Sgriwtini ar 19 Chwefror ac felly dim ond cyfnod byr o amser oedd gan y Cyngor i osod ei gyllideb derfynol a'r Dreth Gyngor cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Cyfeiriodd hefyd at bryderon nad yw'r setliad yn ddigon i gwrdd â'r pwysau ariannol y mae'r cynghorau yng Nghymru yn eu hwynebu a bod CLILC wedi lobïo am gyllid gwaelodol sy'n uwch na 3.8%. Ychwanegodd bod cyllid grant ychwanegol yn cael ei gyhoeddi'n hwyr a bod hynny'n cymhlethu'r mater gan fod yn rhaid ei ymgorffori i gynlluniau terfynol y Cyngor yn hwyr yn y broses o osod y gyllideb. Gan fod y Pwyllgor Gwaith eisoes wedi clustnodi adnoddau yn y gyllideb ddrafft gychwynnol i ymorol am gostau Gwasanaeth Cymdeithasol, gellir defnyddio'r cyllid grant ychwanegol i leihau'r Dreth Gyngor a tra bo'r Pwyllgor Gwaith

yn gwerthfawrogi nad yw cynyddu'r Dreth Gyngor yn opsiwn poblogaidd a'i fod yn anodd i nifer o bobl, mae'n un o'r ychydig opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor i gydbwyso ei gyllideb.

Wrth adolygu'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb, roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r cyllid ychwanegol ond pwysleisiwyd bod angen sicrwydd ar y cyngor hwn a chynghorau eraill yng Nghymru ac y byddai setliadau tymor hwy yn cynnig hynny, yn ogystal â gwell setliadau sy'n mynd i'r afael yn llawn â'r heriau ariannol y mae'r cynghorau yn eu hwynebu. Cyfeiriodd yr aelodau at y gost gynyddol o ddarparu gwasanaethau, yn benodol gofal cymdeithasol i blant, ac at y datrysiadau arloesol y mae'r Cyngor eisoes wedi'u cyflwyno i leiniau'r costau hyn megis y ddarpariaeth Cartrefi Clyd.  Amlygwyd rôl bwysig y gwasanaethau cymdeithasol o ran cefnogi'r Gwasanaethau Iechyd a nodwyd y dylid cydnabod y rôl honno'n ariannol ac y dylid gwneud hynny'n mewn modd mwy priodol a chynaliadwy yn hytrach na thrwy grantiau un tro.   Yn yr un modd, fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor Gwaith gydnabod gwerth gwasanaethau ataliol a thra bod y mwyafrif o'r gwasanaethau hyn yn anstatudol maent yn hanfodol i lesiant cymunedau ac i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn enwedig ar Ynys Môn lle mae mwyafrif y boblogaeth yn bobl hŷn.  Aeth y Pwyllgor Gwaith ymlaen i amlygu ei fod, wrth lunio ei gynigion ar gyfer y gyllideb, wedi ceisio amddiffyn gwasanaethau hanfodol megis addysg a gofal cymdeithasol a gwasanaethau i bobl bregus a'i fod wedi ceisio dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng torri gwasanaethau, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chodi'r Dreth Gyngor.  Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i bawb a oedd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb sydd wedi bod yn broses hir a heriol.

**Penderfynwyd -**

- **Defnyddio'r cyllid ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru er mwyn diwygio'r cynnig cyllideb drafft cychwynnol fel a ganlyn -**
    - **Peidio â gweithredu'r cynnig i ddechrau codi tâl gwasanaeth ar gyfer unedau diwydiannol a busnes yn 2025/26.**
    - **Peidio â gweithredu'r cynnig i ostwng nifer y diwrnodau y mae canolfannau ailgylchu'r Cyngor ar agor yn 2025/26**
    - **Lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor 1% i 8.5% ar gyfer eiddo Band D (7.85% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.65% i gwrdd â chynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân).**
    - **Dyrannu £217k er mwyn cwrdd â chostau adnewyddu offer TG mewn ysgolion yn y dyfodol**
- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £9.75m o falansau cyffredinol.**
- **Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Argymell i'r Cyngor Llawn gyllideb net derfynol o £195.443m ar gyfer y Cyngor Sir ac, yn sgil hynny, cynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor (7.85% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.65% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân), gan nodi y caiff cynnig ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2025.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol.**

DRAFT

- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k oni bai bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw.**
- **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn aros ar 100%.**

## 6. CYLLIDEB CYFALAF 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor Gwaith ei hadolygu cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio, Cyllid a Thai a adroddodd bod cyllideb gyfalaf o £44.294m yn cael ei chynnig a bod y rhaglen a'r gyllideb wedi cael eu nodi ar dudalen agoriadol yr adroddiad. Fe all y gyllideb gyfalaf newid yn ystod y flwyddyn wrth i grantiau ychwanegol gael eu dyrannu ac wrth ymgeisio am grantiau a bydd gyllideb yn cael ei haddasu'n unol â hynny.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y cyswllt rhwng y strategaeth gyfalaf, y gyllideb gyfalaf a'r strategaeth rheoli trysorlys o ran darparu fframwaith ar gyfer cefnogi a rheoli amcanion a gwariant cyfalaf y Cyngor. Mae'r sefyllfa o ran y gyllideb gyfalaf wedi bod yn heriol ers tro ac er bod y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 £401k yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2024/25, sef y cynnydd sylweddol cyntaf y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn ers nifer o flynyddoedd, nid yw'n gwneud iawn am werth is y cyllid hwnnw yn sgil chwyddiant. Mae Tabl 1 yn yr adroddiad yn rhagweld y bydd £32.378m o gyllid cyfalaf ar gael yn erbyn rhaglen gyfalaf sydd werth £44m. Bydd y diffyg o £11.91m yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth, £10.623m o'r CRT a £1.293m i'r Gronfa Gyffredinol. Er bod hyn yn newid mewn strategaeth, gan nad yw'r Cyngor wedi benthyca heb gymorth o'r blaen oni bai bod cynlluniau'n sicrhau arbedion digonol i dalu'r costau benthyca, mae'n dal i fod yn ddarbodus wrth fenthyca a bydd yn gwneud yn siŵr bod benthyciadau'n ddichonadwy o safbwynt refeniw. Mae'r benthyciadau'n hanfodol i alluogi'r Cyngor fuddsoddi yn ei asedau. Mae angen gwella nifer o'r asedau hyn ac nid yw'r cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru'n ddigonol i gwrdd â'r costau hyn. Mae benthyca digefnogaeth ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru at ddibenion priffyrdd ond nid yw'r manylion wedi'u cadarnhau eto.

Adroddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y pwyllgor wedi ystyried y Rhaglen Gyfalaf a'r Gyllideb ar gyfer 2025/26 yn ystod ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2025 yn ogystal cyn i'r setliad terfynol gael ei gyhoeddi a chadarnhaodd bod y pwyllgor, ar ôl nodi nad oes unrhyw ffynonellau ariannu sylweddol eraill ar gael i'r Cyngor i ariannu prosiectau mawr ac eithrio'r CRT sydd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac nad oes modd ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall, wedi cefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb gyfalaf.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gydnabod gwerth posib y prosiectau cyfalaf i'r gweithlu a chwmnïau lleol a nododd bwysigrwydd tendro ar gyfer contractau cyfalaf er budd yr economi leol. Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gydnabod arloesedd a menter y Swyddogion wrth sicrhau grantiau cyfalaf.

**Penderfynwyd Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar 2025/26:-**

DRAFT

| | £'000 |
|---|---|
| **Cynlluniau 2024/25 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol** | **6,439** |
| **Atgyweirio / Disodli Asedau** | **6,304** |
| **Diweddaru Systemau Gwresogi gan ddefnyddio'r cyllid grant Gwres Carbon Isel** | **4,463** |
| **Cymunedau Dysgu** | **152** |
| **Cynlluniau Lliniaru Llifogydd** | **330** |
| **Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth** | **4,367** |
| **Safleoedd ac Adeiladau Datblygu Economaidd** | **200** |
| **Seilwaith Gwastraff** | **1,445** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **20,594** |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2025/26** | **44,294** |

**Cyllidir Gan:**

| | |
|---|---|
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol 2025/26** | **2,661** |
| **Benthyca â Chefnogaeth Cronfa Gyffredinol** | **3,118** |
| **Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth** | **152** |
| **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **500** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **1,160** |
| **Grantiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** | **14,816** |
| **Benthyca Digefnogaeth - Cronfa Gyffredinol** | **1,293** |
| **Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT** | **5,488** |
| **Grantiau Allanol y CRT** | **4,483** |
| **Benthyca Digefnogaeth y CRT** | **10,623** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2025/26** | **44,294** |

**Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**

DRAFT